

Gwahanlith allan o

LLÊN CYMRU

Cyfrol 5, Rhifyn 3, Ionor, 1959

DAFYDD AP GWILYM A JEAN FROISSART

Wrth baratoi argraffiad newydd o'm *Clock and Watch Makers in Wales* (Caerdydd, 1945), cefais gyfle i ailystyried cywydd Dafydd ap Gwilym i'r cloc (er na ddylid disgrifio'r cywydd felly). Yn yr argraffiad cyntaf, cydnabûm nad oedd modd darganfod ar y pryd leoliad y 'dref wiw ger Rhiw Rheon'. Yn y cyfamser, cyhoeddodd Dr. Thomas Parry ei gyfrol, *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (1952), lle y dywed: '.... temtir dyn i gymryd mai Aberhonddu yw'r "dref wiw" y mae'r bardd yn canu iddi'. Fe gofir fod y 'dref wiw' hon 'ar gwr y graig, a'r gaer gron'. Am hyn, dywed Dr. Parry: 'Y mae y Gaer, sef yr hen gaer Rufeinig, o fewn tair milltir i Aberhonddu. Y mae'n wir nad yw "cron" yn ddisgrifiad da ohoni, ond ni raid disgwyl cywirdeb manwl mewn cerdd'.

Tueddai Dr. Parry at dderbyn Aberhonddu am fod yr enwau Blaenrheon ac Aberheon yn yr ardal rhwng Mynydd Illtud a Phen-pont ac Aber-brân, rai milltir-oedd o'r dref ei hun. Ond os gellir ystyried Aberhonddu o gwbl (ac y mae'r ffeithiau'n nodedig o brin), yr wyf yn sicr nad oes yn y cywydd gyfeiriad at y gaer Rufeinig. O gofio cywirdeb disgrifiadol manwl y cywyddwyr (megis y disgrifiad rhyfeddol fanwl hwnnw o'r ceiliog coed — mewn cywydd nas priodolir bellach gan Dr. Parry i Ddafydd), yr wyf yn sicr na buasai Dafydd yn disgrifio caer Rufeinig (o bopeth) fel un gron. Yn wir, y mae'n bur amheus a oedd fawr ddim ohoni i'w weld yn oes Dafydd canys y mae'n dra phosibl (fel yr awgrymwyd gan eraill) fod Bernard Newmarch wedi defnyddio ei meini i adeiladu ei gastell yn Aberhonddu yn niwedd y ddeuddegfed ganrif.

Os Aberhonddu yw'r dref ger Rhiw Rheon ar gwr craig a chaer gron, onid at gastell Newmarch y cyfeiriai'r bardd? Y mae'r disgrifiad wedyn yn gywir ddigon. A dilyn yr awgrym hwn, os cytunwn fod ll.33 yn ddisgrifiad yn hytrach na chyffelybiaeth, yr oedd y cloc mewn 'mynachglos', a'r lle a ddaw ar unwaith i'r meddwl yw Priordy Aberhonddu. Er hynny, nid oes na thystiolaeth na thraddodiad am gloc yn y priordy hwnnw.

Ymgynghorais â Dr. Parry ar y pwyntiau hyn. Cytuna'n galonnog â'r awgrym am y Castell. Ebr ef ymhellach: ¹

Yr wyf yn credu fod raid dehongli'r cywydd yn unol â chred yr Oesoedd Canol am natur breuddwyd, sef fod enaid dyn yn gadael ei gorff ac yn mynd at y person neu'r lle a welir yn y breuddwyd. Dyna, 'rwy'n meddwl, yw ystyr 'Acw y daw cyn y dydd... Angel bach yng ngwely bun'. Ond yr oedd y bardd ei hun yn rhywle arall — 'Pell oedd rhyngof... a'i hwyneb pan ddihunais'. Y dref wiw ger Rhiw Rheon oedd cartref y ferch: y mae hynny'n hollol glir oddi wrth y llinellau cyntaf. Felly nid yno, ond yn rhywle pell i ffwrdd, yr oedd Dafydd yn cysgu ac yn cael ei ddeffro gan y cloc. Ai mewn 'mynachglos' yr oedd? Nid wyf yn sicr mai disgrifiad sydd yn llau. 33-4 ond yn hytrach gyffelybiaeth... ond o gymryd mai mewn mynachglos yr oedd Dafydd yn cysgu pan glywodd y cloc, a pheidio â chymryd y 'pell' (ll.19) yn rhy lythrennol, ni welaf na eill gyfeirio, fel yr awgrymwech chwi, at Briordy Aberhonddu.

¹ Llythyr dyddiedig 17 Awst 1959.

Fel y gwelir, y mae'r ddadl tros leoli'r cloc yn Aberhonddu ar sylfeini serfyll iawn, ac o'm rhan i fy hun (er cofio, hefyd, y gallai'r 'eang eilun', ll.15, gyfeirio at Grog enwog y Priordy) tueddaf i wrthod y lleoliad. Yn sicr, nid oes amheuaeth nad yw Dr. Parry yn iawn wrth gyfeirio at y cywydd fel enghraifft o ganu sy'n unol â syniad yr Oesoedd Canol am natur breuddwyd. Eithr anos felly yw'r ddadl tros gysylltu'r cloc â'r 'dref wiw' onid oedd 'pellter' Dafydd, fel yr awgryma Dr. Parry, yn golygu bod dau adeilad yn yr un dref, y naill yn gartref y ferch, a'r bardd yn cysgu yn y llall.

Gwelodd rhai gyfeiriad at dde-orllewin Lloegr yn y cywydd a chredu mai yno yr oedd cloc Dafydd. Ond ar wahân i'r ffaith mai cloc eglwys gadeiriol Wells yw'r cynharaf y gwyddom amdano yn y fro honno (dyddir hwnnw yn 1392, sef ar ôl oes Dafydd), nid oes sail tros y dybiaeth. Fe'm sicrheir gan Dr. Parry ac ysgolheigion eraill nad at Gernyw y cyfeiria'r ymadrodd 'wlad Eigr' (ll.44); yr hyn a geir yw'r gystrawen gyffredin o rod-di'r genidol yn gyntaf: Eigr (mam Arthur) y wlad oedd y ferch.

Tybed a oes angen credu bod cloc y cywydd yng Nghymru neu yn Lloegr o gwbl? Onid bardd sydd yma'n canu, a hwnnw'n fardd o ddychymyg a chreffft meistr? Tybed na allai fod Dafydd ap Gwilym yn gwybod am o leiaf un disgrifiad nodedig o gloc, a defnyddio hwnnw, *fel y gwnaeth y disgrifiwr ei hun*, i lunio cerdd serch? Ystyrier yr awgrym hwn yn fanylach.

Pur annelwig yw hanes cynnar clociau mecanyddol. Yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg y gwnaethpwyd y clociau cyntaf y mae gennym wybodaeth amdanynt. Clociau cyhoeddus oedd y rhain, ond diau fod hefyd glociau tŷ na wyddom ddim amdanynt. Lluniwyd cloc yn ystod y blynyddoedd 1348-64 gan Giovanni de' Dondi, athro ym Mhrifysgol Padua, cloc a fu'n enwog am ganrif ar ôl hynny, ac a fu yng nghastell Pavia hyd 1529, pan aeth Siarl V ag ef i Sbaen lle y llosgwyd ef yn ddiweddarach yng Nghwfaint San Yste. Y mae disgrifiad a darlun o'r cloc hwn.² Ym Mhrydain gosodwyd cloc yng Nghastell Windsor rhwng 1351 a 1354 ac yr oedd clociau yn Westminster, Queenborough a Langley tua 1366-70.³ Cloc eglwys gadeiriol Salisbury (1380-6) a chloc eglwys gadeiriol Wells (1392) yw'r hynaf o'r rhai sy'n aros (y gwyddom amdanynt) — y ddau ar ôl cyfnod Dafydd.

Un o gyfoeswyr Dafydd ap Gwilym oedd Jean Froissart, y croniclydd enwog.⁴ Fe'i ganed yn 1337 yn Valenciennes. Bu ym Mhrydain am gyfnodau hirion oddeutu 1360. Canai i'r frenhines Philippa *beaux ditties et traités amoureux*. Bu'n aros yng nghastell Dalkeith ac yng Nghaeredin, a theithio trwy siroedd gogledd Lloegr; yn Westmorland clywsai 'Gymraeg' a galw'r lle yn 'la Norgalle.' Yr oedd Ieirll Henffordd a Phenfro yn noddwyr iddo. Teithiodd ar hyd dyffryn Hafren a bu yn aros hefyd am rai dyddiau yng Nghastell Berkeley. Arhosodd yn Llundain fel ysgrifennydd i'r brenin Siôn o Ffrainc hyd 1366 pan ddychwelodd am gyfnod byr i'r Cyfandir, a

² Llawysgrif yn Llyfrgell Marciana yn Fenis: mae copi yn Llyfrgell Bodley.

³ R. Allen Brown: 'King Edward's Clocks' yn *The Antiquaries Journal*, XXXIX (1959), t. 285.

⁴ Diolchaf i'r Athro Emeritus Morgan Watkin a'r Athro Armel Diverres am gyngor a gwybodaeth ynglŷn â Froissart. Rhoes Dr. Watkin fi ar y ffordd i astudio cerdd Froissart a chefais fanylion pwysig am deithiau Froissart gan yr Athro Diverres.

mynd i Frwsel lle y bu cyfarfod mawr o wŷr cerdd gwledydd gorllewin Ewrop, pawb a allai 'rimer et dicter'.⁵

Tybed a ddaeth Dafydd ap Gwilym a Jean Froissart wyneb yn wyneb rywdro? A ddaeth Dafydd i adnabod y gŵr afieithus hwn a gymerai gymaint o ddiddordeb yn y Sgotiaid ac yng Nghymry'r Gogledd, neu a ddaeth ar ei draws pan deithiai yn nyffryn Hafren? A fynnodd Froissart yntau, gŵr selog i ymgyfathrachu â phen-defigion a beirdd, adnabod brenin cerdd dafod Cymru? 'No newspaper correspondent' ebr Syr Walter Besant am Froissart, 'has ever equalled this medieval collector of intelligence.' Neu a oedd Dafydd yn un o 'eisteddfodwyr' Brwsel? Dyfalu pur; eithr fe allai hyn oll fod wedi digwydd.

Ymysg y *beaux ditties amoureux* a ganodd Froissart yr oedd un 'Dittie d'Amour, Qui s'appelle Le Orloge Amoureux'. Anodd dyddio'r gerdd hon yn fanwl ond y mae lle i gredu iddo ei chyfansoddi pan oedd yn Llundain. Cynnwys y gerdd, 'Cloc Cariad,' 1174 o linellau. Ynddi ceir cymhariaeth rhwng gwahanol rannau cloc taro a phriodoleddau cariad.⁶ Ar wahân i'r disgrifiad moel o gloc De' Dondi a chywydd Dafydd, dyma'r unig ddisgrifiad sydd gennym o gloc y bedwaredd ganrif ar ddeg:

Car l'Orloge est, au vrai considerer,
Un instrument très bel et très notable,
Et c'est aussi plaisant et pourfitable . . .
Ensi Amours me fait considerer,
Et m'a donné matière de penser
A un Orloge.

Yn llinellau 201-220, 347-366, 599-614, a 927-948, ceir disgrifiadau o'r cloc. Sonnir am ei rodau, ei bwysau, ei ddwy raff, ei *foliot* (sef bar neu gylch haearn) yn symud yn barhaus i'r dde ac i'r chwith⁷, ei fwrthwl a'i glychau a drewid, ac am y clychau bychain yn seinio'n helaeth. A sonnir am wyneb y cloc, hwnnw y tu mewn i un o ochrau petryalog agored fframwaith y cloc.

Dyma Ddafydd yntau'n sôn am yr wyneb ('ffriw'), 'y ddwy raff', y 'rhod', y 'pwysau', y 'buarthau' (sef yr ochrau petryalog,) y 'mwrthwl', yr 'hwyaid yn tybiaid dydd' (sef y clychau bychain), a'r 'melinau aflonydd' (sef y ddwy rod a'r *foliot* yn symud yn ddibaid). A dyma ddefnyddio'r disgrifiad cyfan fel rhan o gywydd serch, yn union fel y gwnaeth Froissart yntau. Jean Froissart a Dafydd ap Gwilym yw'r unig rai y gwyddom iddynt wneuthur hyn yn y cyfnod hwn, ac ni bu disgrifiadau cyffelyb wedyn⁸ hyd amser Leonardo da Vinci (1493-4). Er na ddeallai Froissart fecanyddwaith cloc, y mae ei ddisgrifiad ef yn llawnach ac yn fanylach o lawer nag eiddo Dafydd, eithr y mae prif elfennau'r disgrifiad oll gan Ddafydd hefyd. A wyddai Dafydd am gerdd Froissart, heb erioed weld cloc ei hun? Beth bynnag fo'r eglurhad am ffynhonnell gwybodaeth Dafydd, ef a Jean Froissart oedd y ddau fardd cyntaf yn Ewrop i ddisgrifio cloc.

Sain Ffagan.

IORWERTH C. PEATE.

⁵ Syr Walter Besant: 'Jean Froissart' yn *Encyclopedia Britannica*, 11eg Argraffiad.

⁶ Ysgrifenna'r Athro Diverres (Llythyr 22.1.60): 'A colleague who is a specialist on fourteenth-century thought . . . tells me that he has never come across the clock used as a concrete illustration'. Yn y ganrif honno, felly, yr oedd hyn yn gyfyngedig i Froissart a Dafydd.

⁷ Nid oes sicrwydd am darddiad y gair *foliot*, ond tybir ei ddyfod o *folier* — dawnsio'n wyllt o gwmpas. Froissart oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term, a ddaeth wedi hynny yn rhan o eirfa dechnegol y clociwr.

⁸ G. H. Baillie: *Clocks and Watches: An Historical Bibliography*. Llundain, 1951.

